



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Strategaeth Gwaith Ffordd a Stryd ar gyfer Cymru

Rhagfyr 2015



**FFORDD  
AR GAU  
ROAD  
CLOSED**



## Cynnwys

1.0	Cyflwyniad .....	2
2.0	Cefndir.....	2
3.0	Beth yw'r prif broblemau? .....	3
4.0	Y Strategaeth .....	3
A.	Gwella'r dull o gynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith .....	4
B.	Gwella dull cyflawni prosiectau trafndiaeth mawr.....	6
C.	Gwella cyfathrebu â'r cyhoedd a busnesau .....	6
D.	Sgiliau a hyfforddiant .....	6
E.	Diwylliant.....	7
	Atodiad 1 – Crynodeb o'r camau gweithredu .....	8
	Atodiad 2 – Deddfwriaeth Gwaith Ffordd a Stryd.....	10
	Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 .....	10
	Deddf Rheoli Traffig 2004.....	10
	Offerynnau Statudol.....	10
	Rôl Rheolwr Traffig .....	11

## 1.0 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddod â newid go iawn a pharhaol i bobl Cymru. Un o nodau allweddol y Rhaglen Lywodraethu yw gwella'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy.

Mae rheoli a chydgyssylltu gwaith ffordd a stryd yn effeithiol yn hollbwysig wrth gyflawni hyn. Mae gwaith o'r fath yn hanfodol i gynnal a chadw neu i wella gwasanaethau i gymunedau neu sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yr ydym i gyd yn dibynnu arno'n parhau i weithio. Fodd bynnag, gall gwaith ffordd a stryd, os na chaiff ei gynllunio'n dda, achosi oedi difrifol i ddefnyddwyr ffyrdd a chael effaith andwyol ar economi Cymru.

Mae'r Strategaeth Gwaith Ffordd a Stryd hon yn nodi dull o wella'n sylweddol y ffordd y caiff gwaith ffordd a stryd ei reoli, gan sicrhau bod gan gymunedau'r gwasanaethau a'r seilwaith a reolir yn dda y maent yn dibynnu arnynt, ond ar yr un pryd bod Cymru yn dal i fod yn agored ar gyfer busnes.

## 2.0 Cefndir

Mae "gwaith ffordd" (neu "waith at ddibenion ffyrdd") yn waith a gyflawnir fel arfer gan awdurdodau priffyrdd i atgyweirio neu gynnal a chadw priffyrdd, neu osod priffordd newydd yn lle hen un, sydd o dan gyfraith priffyrdd yn cynnwys y droetffordd neu'r palmant. Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer traffyrdd a chefnffyrdd. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw ffyrdd lleol.

Cyflawnir "gwaith stryd" gan ymgymerywyr statudol neu drwyddedeion o dan adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, neu eu contractwyr, i osod, archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio cyfarpar, neu osod cyfarpar newydd yn lle hen rai. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau cyfleustodau (nwy, trydan ac ati) yn ymgymerywyr statudol. Mae gan ymgymerywyr statudol hawl neu ddyletswydd statudol i osod, archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio cyfarpar, neu osod cyfarpar newydd yn lle hen rai, yn y stryd neu o dani, mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Ar hyn o bryd mae gwaith ffordd a stryd yn cael ei reoli yng Nghymru a Lloegr gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004.

Mae'r Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, gyda chefnogaeth Rheoliadau a Chodau Ymarfer, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith stryd gan ymgymerywyr (gan gynnwys cyfleustodau) a gwaith at ddibenion ffyrdd – i'r graddau bod yn rhaid i hwn gael ei gydgyssylltu gan awdurdodau priffyrdd.

Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 yn darparu pwerau ychwanegol i leihau tagfeydd: mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer dynodi swyddogion Traffig; mae Rhan 2 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau traffig lleol i reoli eu rhwydwaith ffyrdd i sicrhau y gall traffig symud yn ddilyffethair ar eu ffyrdd nhw ac ar ffyrdd awdurdodau traffig eraill; mae Rhan 3 yn caniatáu ar gyfer cyflwyno cynlluniau trwyddedau ar gyfer gwaith ffordd a stryd; Rhan 4, pwerau cryfach i awdurdodau priffyrdd lleol gyfarwyddo pryd y cyflawnir gwaith neu ble gosodir cyfarpar newydd; ac mae Rhan 6 yn caniatáu ar gyfer gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol i reoli gwaith ffordd a stryd yr un peth i Gymru ac i Loegr, mae'r ymagwedd ychydig yn wahanol oherwydd y cyflwynwyd Rheoliadau a Chodau Ymarfer ar wahanol adegau.

Mae Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru yn cynnig fforwm cydweithredol gwerthfawr i awdurdodau priffyrdd ac ymgwymerwyr drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb a chytuno ar ymagweddau a gweithredu ar y cyd.

### **3.0 Beth yw'r prif broblemau?**

Ers ei chyflwyno yn y 1990au mae deddfwriaeth i reoli gwaith ffordd a stryd wedi gwella perfformiad ymgwymerwyr ac awdurdodau priffyrdd yn fawr. Fodd bynnag, mae nifer y tagfeydd oherwydd gwaith sy'n para'n hirach na'r disgwyl neu sy'n gwrthdaro yn dal i fod yn fwy nag sy'n angenrheidiol.

Mae dau ymchwiliad diweddar wedi darparu tystiolaeth am hyn yng Nghymru.

Yn ei adroddiad yn 2011 ar brosiectau trafndiaeth mawr, tynnodd Swyddfa Archwilio Cymru sylw at yr effaith andwyol y gall oedi wrth newid neu adnewyddu gosodiadau a gwasanaethau ymgwymerwyr statudol ei chael ar darfu i'r cyhoedd wrth iddynt deithio ac ar gostau alldro.

Hefyd pwysleisiodd ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Werth am Arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd", y cyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Mehefin, wedi adolygu'r dystiolaeth o'r diwydiant cyfan, fod rheoli gwael parhaus ar waith ffordd a stryd a'i effaith andwyol ar gostau prosiectau ac ar ddefnyddwyr ffyrdd yn broblem allweddol y mae angen mynd i'r afael â hi.

### **4.0 Y Strategaeth**

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ffordd a stryd yng Nghymru yw y caiff ei reoli mewn ffordd sy'n sicrhau'r oedi lleiaf posibl i'r

cyhoedd a busnesau ac ar yr un pryd yn hwyluso gwaith hanfodol i gynnal a chadw a gwella'r gwasanaethau a'r seilwaith mae cymunedau'n dibynnu arnynt.

Er mwyn cyflawni hyn ni chynigir unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol. Trwy weithio mewn partneriaeth ag ymgymerydd ac awdurdodau priffyrdd trwy Bwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru, gellir gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd y caiff gwaith ffordd a stryd ei reoli er budd Cymru o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Hefyd, gan fod ganddi gyfrifoldeb uniongyrchol am y rhwydwaith cefnffyrdd, sy'n cario mwy na thraean o'r holl draffig yng Nghymru, rydym yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru hithau ran bwysig i'w chwarae wrth arwain y gwaith o fabwysiadu'r arferion gorau.

Er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol i bobl ac i economi Cymru, rydym yn credu bod angen gweithredu mewn pum maes allweddol:

- A. Cynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith ffordd a stryd;**
- B. Cyflawni prosiectau mawr**
- C. Cyfathrebu â'r cyhoedd a busnesau**
- D. Sgiliau a hyfforddiant; a**
- E. Diwylliant**

## **A. Gwella'r dull o gynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith**

Dros y degawd diwethaf mae'r gwaith o wneud Rheoliadau a chyhoeddi a diweddarau Codau Ymarfer wedi bod yn gynt yn Lloegr nag yng Nghymru. Bydd rhai o'r Rheoliadau a Chodau Ymarfer sydd wedi cael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr wedi cael effaith fuddiol ar y dull o gynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r holl Reoliadau a Chodau Ymarfer sydd mewn grym yn Lloegr ac yn datblygu rhaglen i gyflwyno'r rheiny a fyddai'n fuddiol i Gymru erbyn Ebrill 2016.*

Gyda chynifer o ymgymerydd statudol ac awdurdodau priffyrdd yn cystadlu am le ar y ffyrdd mae dull effeithlon ac effeithiol o gynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith yn sylfaenol i leihau tarfu.

Ni ellir cyflawni hyn ond os yw gwybodaeth amserol a chywir ar gael am yr holl waith sydd wedi'i gynllunio ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae cyflwyno hysbysiadau am waith ymgymerydd eisoes yn un o ofynion y ddeddfwriaeth ac mae rhai awdurdodau priffyrdd hefyd yn cofnodi eu gwaith eu hunain er mwyn cyflawni eu dyletswydd rheoli traffig yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r arferion yn amrywio ar draws Cymru ac yn aml mae gwybodaeth yn anghyflawn neu wedi dyddio. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau y cyflwynir hysbysiadau am bob gwaith (gan gynnwys ei gwaith hithau) ar y cefnffyrdd yn unol â chanllawiau a rheoliadau o haf 2016 ymlaen ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth;*

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n diweddarau'r rhestr strydoedd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd (gan gynnwys Data Stryd Ychwanegol) bob mis o Fehefin 2016 ymlaen ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud hyn hefyd; ac*
- *Bydd Llywodraeth Cymru'n annog pob ymgymwrwr sy'n gweithio yng Nghymru ac awdurdodau priffyrdd i gyflawni lawrlwythiadau bob mis o'r canolbwynt cenedlaethol o Fehefin 2016 ymlaen.*

Mae nifer o ddulliau gwahanol wedi cael eu mabwysiadu ar draws y Deyrnas Unedig i wella cynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith ffordd a stryd. Maent yn amrywio o godau ymarfer anffurfiol i gynlluniau trwyddedau ffurfiol o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae cynlluniau trwyddedau'n cynnig dewis arall yn lle'r system hysbysiadau (yn unol â Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991). Trwy'r cynlluniau hyn, yn hytrach na hysbysu'r awdurdod priffyrdd am ei fwriad i gyflawni gwaith, bydd yn rhaid i hyrwyddwr wneud cais am drwydded i feddiannu'r briffordd. Mae'r Cynllun Trwyddedau'n berthnasol i bob gwaith gan gynnwys gwaith yr awdurdod priffyrdd ei hun.

Mae nifer o fanteision posibl i gyflwyno cynllun trwyddedau ffurfiol, gan gynnwys: gwell cydgysylltu a chydweithredu; gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng rhanddeiliaid; gwell cyfathrebu; gwell amseru a lleihad yn hyd gwaith a gwell blaengynllunio. Fodd bynnag, mae anfanteision posibl gan gynnwys y gost uwch i ymgymwrwr statudol ac o bosibl eu cwsmeriaid. Mae yna ffioedd ar gyfer dyroddi trwyddedau i dalu'r costau gweinyddol uwch.

Mae diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Lloegr) 2007 yn gynharach eleni'n golygu nad oes angen i awdurdodau priffyrdd yn Lloegr sydd eisiau cyflwyno cynllun trwyddedau gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mwyach cyn y gellir gweithredu cynllun. Mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn gweithredu cynlluniau o'r fath yng Nghymru wedi cael ei gadw. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau yn gyntaf bod yr achos busnes dros eu cyflwyno yn gadarn ac yn ail, os oes ei angen, y mabwysiadir dull cyson ledled Cymru fel nad oes yn rhaid i fusnesau ymdopi â phrosesau gweinyddol sy'n amrywio'n fawr. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu a oes achos busnes cadarn dros gyflwyno cynlluniau trwyddedau yng Nghymru erbyn Ebrill 2016; a*
- *Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau i Gymru ar gynlluniau trwyddedau yng Nghymru erbyn Ebrill 2017, os penderfynir mai hwn yw'r dull gorau o wella cynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith ffordd a stryd.*

## **B. Gwella dull cyflawni prosiectau trafndiaeth mawr**

Mae newid neu adnewyddu gosodiadau a gwasanaethau ymgwymerwyr statudol yn aml ar y llwybr critigol wrth raglennu gwaith cyflawni prosiectau trafndiaeth mawr. Nid yn unig mae oedi wrth gyflawni'r gwaith hwn yn golygu tarfu hirach ar y cyhoedd wrth iddynt deithio, gall hefyd gynyddu costau'n sylweddol. Er gwaethaf y ddeddfwriaeth bresennol ceir oedi a chostau uwch na'r disgwyl o hyd, a gellir gwneud mwy. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu cod ymarfer gwirfoddol i wella cydweithio ar brosiectau mawr gyda'r nod y bydd pob rhanddeiliad yn ymrwymo iddo erbyn Medi 2016*

## **C. Gwella cyfathrebu â'r cyhoedd a busnesau**

Mae cyhoeddi gwybodaeth gywir ac amserol cyn gwaith ffordd a stryd yn hanfodol er mwyn i'r cyhoedd a busnesau wneud penderfyniadau gwybodus am eu trefniadau teithio.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cymorth i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n caniatáu iddynt gyhoeddi gwybodaeth gryno am waith stryd i wefan ganolog. Hefyd mae llawer o awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefannau eu hunain ac mae Llywodraeth Cymru'n darparu gwybodaeth ar ei rhwydwaith ei hun trwy wefan Traffig Cymru. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy i wella ansawdd y wybodaeth, ei maint a rhwyddineb cael gafael arni. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a busnesau am waith ffordd a stryd erbyn Ebrill 2017.*

## **D. Sgiliau a hyfforddiant**

Dylai unrhyw un sy'n gweithio ar y priffyrdd fod yn ddigon cymwys i sicrhau diogelwch y gweithlu a diogelwch y cyhoedd wrth iddynt deithio. O dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, mae'n rhaid i'r gwaith o osod, adnewyddu, cynnal a chadw ac archwilio cyfarpar tanddaearol mewn unrhyw stryd neu ffordd gael ei gyflawni gan bersonél hyfforddedig a chymwys. Yn Lloegr, mae gofyniad i weithwyr ffordd ailymgeisio am eu hachrediad bob 5 mlynedd (gofyniad a gyflwynwyd yn 2009), sy'n achosi costau gweinyddol. Ar hyn o bryd nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol yng Nghymru. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad yn ystod 2016, i ganfod a yw'r drefn hyfforddiant bresennol yn effeithiol wrth sicrhau y cynhelir safonau, neu a fydd cyflwyno proses ailasesu ffurfiol yn codi safonau diogelwch a chydymffurfiaeth gwaith gweithredol.*



## E. Diwylliant

Rydym eisiau gweld newid sylweddol yn ein perfformiad a diwylliant o newid parhaus ar draws y diwydiant. Er mwyn cyflawni hyn mae angen inni allu mesur ein cynnydd, gweld yn glir beth sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio a'r cyfraniad mae pob un o'r rhanddeiliaid yn ei wneud. Felly:

- *Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu mesuriad argaeledd i'r rhwydwaith cefnffyrdd erbyn Ebrill 2016 ac yn annog pob awdurdod priffyrdd arall yng Nghymru i wneud yr un peth; a*
- *Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu dull "cerdyn sgorio cytbwys" o fesur perfformiad sefydliadau yng Nghymru gyda'r nod y bydd pob rhanddeiliad yn ymrwmo iddo erbyn Ebrill 2017.*

## Atodiad 1 – Crynodeb o'r camau gweithredu

Cam gweithredu	Dyddiad
<b>A. Gwella cynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith</b>	
Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r holl Reoliadau a Chodau Ymarfer sydd mewn grym yn Lloegr ac yn datblygu rhaglen i gyflwyno'r rheiny a fyddai'n fuddiol i Gymru	Erbyn Ebrill 2016
Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau y cyflwynir hysbysiadau am bob gwaith (gan gynnwys ei gwaith hithau) ar y cefnffyrdd yn unol â chanllawiau a rheoliadau ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth	O Fehefin 2016 ymlaen
Llywodraeth Cymru'n diweddarau'r rhestr strydoedd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd (gan gynnwys Data Stryd Ychwanegol) bob mis ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud hyn hefyd	O Fehefin 2016 ymlaen
Llywodraeth Cymru'n annog pob ymgwymerwr sy'n gweithio yng Nghymru ac awdurdodau priffyrdd i gyflawni lawrlwythiadau bob mis o'r canolbwynt cenedlaethol	O Fehefin 2016 ymlaen
Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu a oes achos busnes cadarn dros gyflwyno cynlluniau trwyddedau yng Nghymru	Erbyn Ebrill 2016
Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau i Gymru ar gynlluniau trwyddedau yng Nghymru, os penderfynir mai hwn yw'r dull gorau o wella cynllunio, cydgysylltu a chyflawni gwaith ffordd a stryd	Erbyn Ebrill 2017
<b>B. Gwella dull cyflawni prosiectau trafniadaeth mawr</b>	
Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu cod ymarfer gwirfoddol i wella cydweithio ar brosiectau trafniadaeth mawr gyda'r nod y bydd pob rhanddeiliad yn ymrwymo iddo	Erbyn Medi 2016
<b>C. Gwella cyfathrebu â'r cyhoedd a busnesau</b>	
Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a busnesau am waith ffordd a stryd	Erbyn Ebrill 2017
<b>D. Gwella safon sgiliau a hyfforddiant yn y sector</b>	
Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad i ganfod a yw'r drefn hyfforddiant bresennol yn effeithiol wrth sicrhau y cynhelir safonau, neu a fydd cyflwyno proses ailasesu ffurfiol yn codi safonau diogelwch a chydymffurfiaeth gwaith gweithredol	Yn ystod 2016
<b>E. Hybu diwylliant o welliant parhaus</b>	
Llywodraeth Cymru'n datblygu mesuriad argaeledd i'r rhwydwaith cefnffyrdd ac yn annog pob awdurdod	Erbyn Ebrill 2016

priffyrdd arall yng Nghymru i wneud yr un peth	
Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu dull "cerdyn sgorio cytbwys" o fesur perfformiad sefydliadau yng Nghymru gyda'r nod y bydd pob rhanddeiliad yn ymrwymo iddo	Erbyn Ebrill 2017

## Atodiad 2 – Deddfwriaeth Gwaith Ffordd a Stryd

### Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991

Mae dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gynnal a chadw eu ffyrdd o dan Ran IV o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac mae unrhyw waith y maent yn ei gyflawni'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth hon. Y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd yw'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwaith yr ymgymerydd.

Caniateir i ymgymerydd gyflawni gwaith stryd yn rhinwedd eu hawl statudol, neu drwydded a roddir o dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd ac nid oes arnynt angen cydsyniad ymlaen llaw gan yr awdurdod priffyrdd neu strydoedd, o angenrheidrwydd.

### Deddf Rheoli Traffig 2004

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Traffig i roi mwy o reolaethau i awdurdodau strydoedd mewn ymateb i'r nifer fwy o gwmnïau cyfleustodau a'r lefelau tarfu cysylltiedig. Mae'r Ddeddf Rheoli Traffig yn ymdrin yn benodol ag ansawdd a chyflymder gwaith adfer, y rhybudd a roddir am waith arfaethedig, a chydgyssylltu'r gwaith hwnnw.

Diwygiodd Rhan 4 o'r Ddeddf Rheoli Traffig y ddeddfwriaeth i roi pwerau llawer mwy i awdurdodau strydoedd i leihau tarfu diangen a achosir gan waith sydd wedi'i gynllunio'n wael: mae gan awdurdodau strydoedd fwy o reolaeth dros ble a phryd y gellir ac na ellir gwneud gwaith; gallant osod cyfyngiadau hirach i warchod strydoedd sy'n cael eu tyllu dro ar ôl tro; ac mae ganddynt bwerau gorfodi mwy.

### Offerynnau Statudol

Mae'r Offerynnau Statudol canlynol wedi cael eu rhoi ar waith yng Nghymru:

Offerynnau Statudol (Cymru)	Rhif
Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009	1268 (Cy.115)
Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009	1267 (Cy.114)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008	102 (Cy.15)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008	540 (Cy.52)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2007	1713 (Cy.150)
Gorchymyn Rheoli Traffig (Canllawiau ar Feini Prawf Ymyrryd) (Cymru) 2007	1712 (Cy.149)
Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007	3174 (Cy.279) (C.130)
Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005	1812 (Cy.142)

Ar wefan Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru ceir rhestr lawn o Offerynnau Statudol cyfredol Cymru a gellir ei chyrchu trwy ddilyn y ddolen ganlynol: <http://www.whauc.com>

## **Rôl Rheolwr Traffig**

Mae'n rhaid i bob awdurdod priffyrdd yng Nghymru a Lloegr benodi Rheolwr Traffig a'i rôl yw cyflawni'r fath dasgau y mae'r awdurdod yn barnu y byddant yn ei gynorthwyo i gyflawni'r ddyletswydd rheoli rhwydwaith (Ddeddf Rheoli Traffig, OS 17(2)). Mae swydd y Rheolwr Traffig yn un o nifer o swyddi statudol y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu darparu, er na osodir y ddyletswydd ar y Rheolwr Traffig ei hun. Mae tri maes bras y mae angen i'r Rheolwr Traffig eu hystyried: ymdrin â thagfeydd; lleihau tarfu o waith neu ddigwyddiadau cynlluniedig; a chynllunio ar gyfer yr hyn sydd heb ei gynllunio.

Mae'r ddyletswydd rheoli rhwydwaith ar rwydwaith yr awdurdod lleol wedi'i blaenoriaethu yn ôl pa mor sensitif yw'r rhan honno o'r rhwydwaith i darfu ar y traffig. Dylai pob awdurdod lleol fod wedi datblygu hierarchaethau i'w rwydwaith er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ei sylw ar y rhannau hynny o'r rhwydwaith sy'n fwyaf sensitif i darfu.

Os yw awdurdod lleol yn methu â rheoli ei rwydwaith yn effeithiol gallai Llywodraeth Cymru benodi Cyfarwyddwr Traffig i redeg materion rheoli ei rwydwaith, ar ei gost ef.

Prif amcan y ddyletswydd rheoli rhwydwaith yw i bob awdurdod lleol ddefnyddio'r ffyrdd sy'n bodoli yn y ffordd orau er budd holl ddefnyddwyr y ffyrdd. Mae'r Ddeddf Rheoli Traffig yn caniatáu i awdurdod gymryd camau y bernir eu bod yn rhesymol ymarferol i gyflawni hyn. Mae'r Rheolwr Traffig yn berson canolog yn yr awdurdod ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd ac yn hyrwyddo'r angen am i'r awdurdod ystyried y ddyletswydd ym mhob maes gwaith.